*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 201 (Cy.26)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Chwefror 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *3 Chwefror 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 18, 203 a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a pharagraff 4 o Atodlen 3 iddi(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) (Diwygio) 2009 a daw i rym ar 3 Chwefror 2009.

**Diwygio'r Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu)**

**2.** Yn Erthygl 4 o Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) 1998(**2**), ar ôl y gair "chairman", rhodder y gair "seven" yn lle'r gair "five".

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

2 Chwefror 2009

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1998/678.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) 1998 er mwyn cynyddu nifer y cyfarwyddwyr anweithredol o 5 i 7 (erthygl 2).